Harry Hughes Williams

Roedd Harry Hughes Williams yn baentiwr talentog o dir a daear Gogledd Cymru.

Ganwyd yn Fferm Clai Fawr, Pentraeth ar 18 Ebrill 1892. Symudodd y teulu i Fynydd Mwyn, Llandrygarn yn 1894. Yn un ar ddeg oed cafodd godwm a thorri ei glun, ond celodd y ddamwain ac o ganlyniad bu'n dioddef o anabledd corfforol ar hyd ei oes.

Cwblhaodd ei addysg uwchradd yn y Collegiate School yn Lerpwl ac yna o dair blynedd, o 1911 ymlaen, yn y *Liverpool City School of Art*. Yn gynnar yn 1914 enillodd ysgoloriaeth i'r *Royal College* yn Llundain. Yno enillodd ysgoloriaeth i deithio Ewrop, ond oherwydd y Rhyfel ni allodd fanteisio arni. Daeth yn ei ôl i Fôn ac ymroi i fyw a gweithio fel arlunydd. Trodd un o lofftydd ŷd Mynydd Mwyn yn stiwdio.

Arddangoswyd ei waith yn yr Royal Cambrian Academy yng Nghonwy am y tro cyntaf yn 1918, ac fe'i etholwyd yn aelod cysylltiol o'r Academi yn 1921. Yn 1938 fe'i penodwyd yn athro arlunio yn Ysgol Ramadeg Llangefni.

Ni chyfyngodd Harry Hughes Williams ei hun i ddangos ei waith yn unig yn y Royal Cambrian Academy, lle death yn aelod llawn yn 1938. Cynhwyswyd ei waith mewn arddangosfa o luniau gan artistiaid Cymreig yn Oriel Hugo Lang yn Lerpwl yn 1948. Yn 1949 cafodd arddangosfa iddo'i hun yn Gladwells Fine Art Dealers yn Llundain ac yn 1951 dangoswyd 'Y Ffenestr' yn y Paris Salon a 'Thŷ'r Arlunydd' yn Revue Moderne.

Bu farw Harry Hughes Williams yn 1953, yn 61, pan syrthiodd ar risiau'r llofft ŷd ym Mynydd Mwyn.